

Themâu trawsbynciol

1.1 Cyflwyniad

Mae'r asesiad hwn o lesiant yng Ngwent wedi ystyried mwy na 120 o faterion. Er bod y materion hyn wedi cael eu grwpio'n llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gwyddom nad fel hyn y mae bywydau pobl wedi'u trefnu. Mae'r holl agweddau hyn yn dylanwadu ar ein dewisiadau a'n canlyniadau, a byddant yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'n bywydau fynd yn eu blaenau. Gall iechyd rhywun ddylanwadu ar y math o waith y bydd yn ei wneud, neu'r ffordd y bydd yn manteisio ar ddigwyddiadau diwylliannol neu gefn gwlad. Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb, boed drwy orfod delio â'r canlyniadau neu drwy gael budd o'r cyfleoedd i ddatgarboneiddio a lleihau allyriadau. Felly, drwy gydol yr asesiad hwn, rydym wedi ceisio nodi'r cysylltiadau rhwng y materion, ond nid yw hyn wedi bod yn bosibl gyda llawer ohonynt.

Fodd bynnag, mae pedwar maes cyffredinol wedi dod i'r amlwg a fydd yn ein galluogi i ystyried y ffordd y byddwn yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd gan y dystiolaeth yn yr asesiad, sef:

- Anghydraddoldebau iechyd a llesiant
- Cydlyniant cymunedol
- Yr amgylchedd
- Yr economi a seilwaith

1.2 Anghydraddoldebau iechyd a llesiant

Mae iechyd da, gallu gweld meddyg neu ddeintydd pan fo angen a pha mor hir y byddwch yn byw yn amrywio'n fawr rhwng ein cymunedau yng Ngwent. Gall llawer o bethau effeithio ar iechyd a llesiant pobl, gan gynnwys eu hincwm, eu tai, eu swyddi neu'r amgylchedd lleol. Yn yr un modd, gall eu hiechyd effeithio ar agweddau eraill ar eu bywydau, gan gynnwys i ble y byddant yn teithio a sut, eu bywydau gwaith a'u bywydau cymdeithasol a pha mor ddiogel y maent yn teimlo yn eu cymuned. Bydd anghydraddoldebau iechyd yn aml yn adlewyrchu'r anghydraddoldebau eraill sy'n bresennol yn ein cymunedau.

O ganlyniad i COVID-19, a'r mesurau a roddwyd ar waith i frwydro yn ei erbyn, mae rhestrau aros a phroblemau iechyd meddwl wedi cynyddu ac mae llawer o bobl wedi oedi cyn ceisio cyngor a thriniaeth. Ond gwnaeth y cyfyngiadau hefyd annog mwy o bobl i archwilio cefn gwlad yn lleol a chysylltu â'u cymunedau, gan gynnig rhai manteision ychwanegol o ran iechyd a llesiant.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Gwent, a luniwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent i gyd-fynd â'r asesiad hwn, wedi pennu nifer o flaenoriaethau yn ymwneud â gwella gwasanaethau i bobl sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Nod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a sefydlwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yw darparu gofal, triniaeth a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hybu iechyd a llesiant da. Mae angen i ni sicrhau ein bod

yn cydweithio er mwyn gwneud y gorau o'n hymdrechion i fynd i'r afael ag anghenion pobl a chymunedau Gwent. Wrth i ni ddechrau datblygu'r Cynllun Llesiant a'r dulliau cyflawni, bydd angen ystyried y cysylltiadau a'r synergeddau hyn yn fanylach.

1.3 Cydlyniant cymunedol

Mae teimlo'n rhan o'ch cymuned, ac yn ddiogel ynnddi, yn hanfodol i lesiant pawb. Er y gall cynghorau, gwasanaethai iechyd, yr heddlu ac eraill gefnogi cymunedau, y bobl sy'n byw ynddynt sy'n eu gwneud yn lleoedd croesawgar, amrywiol a ffyniannus i fyw ynddynt. Mae Partneriaeth Gwent Mwy Diogel yn gweithio i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, atal trosedd ac anhrefn a gwella diogelwch cymunedol.

Gall gweithgarwch cymunedol a gwirfoddoli roi ymdeimlad o gyflawniad a balchder i bobl, a gall y cyfle i gwrdd â phobl eraill, dysgu pethau newydd a gwella'r amgylchedd lleol helpu pobl i beidio â theimlo'n unig ac yn ynysig. Mae COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig, cadarnhaol a chryf y gall ein cymunedau fod, gyda rhwydweithiau anffurfiol yn cael eu sefydlu dros nos, fwy neu lai, i gefnogi pawb, yn enwedig y bobl fwyaf agored i niwed. Mae hefyd wedi dangos pa mor bwysig yw cynwysoldeb digidol, a pha mor bwysig y bydd yn parhau i fod, er mwyn i bobl gysylltu â'i gilydd a defnyddio llawer o'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Gall y gallu i dyfu neu brynu bwyd yn lleol ac yn fforddiadwy helpu i ddod â phobl o bob oedran a diwylliant ynghyd, yn ogystal â'u helpu i gysylltu â byd natur a chadw'n iach.

Mae mynd ati i gynnwys y gymuned yn berthnasol i bob cam o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Llesiant a bydd hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni ei amcanion.

1.4 Yr amgylchedd

Yr amgylchedd sy'n darparu'r aer, y dŵr a'r bwyd y mae eu hangen ar bob un ohonom i fyw bywydau hapus ac iach a gwyddys bod gallu mwynhau byd natur yn helpu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Yn ystod yr amrywiol gyfnodau o gyfyngiadau symud a roddwyd ar waith o ganlyniad i COVID-19, roedd pobl yn gwerthfawrogi eu hamgylchedd lleol mewn ffordd nad oedd wedi digwydd o'r blaen o bosibl.

Gall effeithiau newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gael effaith niweidiol ar fywydau pobl, gan arwain at ansawdd aer gwael, tywydd eithafol a phrisiau bwyd ac ynni ansefydlog. Mae gwella ein hafonydd a'n hardaloedd cefn gwlad yn helpu adar ac anifeiliaid ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i gynnwys cymunedau, darparu addysg a meithrin sgiliau newydd. Bydd datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ac ehangu ein seilwaith gwefru cerbydau trydan yn cefnogi'r economi leol, yn lleihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd ac yn gwella ansawdd aer. Bydd partneriaethau rhanbarthol a lleol yn gweithio i wella'r manau gwyrdd, coetir, afonydd a llynnoedd sy'n cysylltu trefi a phentrefi ledled Gwent er budd cymunedau, bywyd gwyllt a byd natur.

Bydd y newid i fwy o wasanaethau digidol ac ar-lein yn galluogi rhai pobl i weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg ac ystwyth, gan leihau'r angen i deithio. Mae angen i ni wneud ein cartrefi a'n busnesau yn fwy effeithlon a bydd hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer swyddi a busnesau gwyrdd lleol, a hefyd yn darparu cartrefi, bwyd a gwasanaethau eraill a fydd yn fforddiadwy ac o ansawdd da.

1.5 Yr economi a seilwaith

Mae economi ffyniannus sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith da sy'n talu'n dda yn allweddol i lesiant, gan leihau tlodi, cefnogi trefi a marchnadoedd lleol a lleihau rhai o achosion troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceir nifer o fentrau sy'n ceisio datblygu economi'r rhanbarth, gan gynnwys Rhanbarth Dinas Caerdydd a'r Gronfa Adfywio a Rennir.

Mae'r economi leol yn dibynnu ar allu staff a chwsmeriaid i deithio o gwmpas y rhanbarth, ac allan ohono, yn hawdd. Mae rhwydwaith trafndiaeth carbon isel dibynadwy a fforddiadwy, sy'n hyrwyddo cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn galluogi pobl i fynd o le i le, ymweld â ffrindiau, mwynhau digwyddiadau diwylliannol ac atyniadau twristiaeth eraill, a chael gofal iechyd, addysg a hyfforddiant yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Hefyd, dangosodd cyfyngiadau COVID-19 pa mor bwysig yw cysylltedd a sgiliau digidol, a pha mor bwysig y byddant yn parhau i fod yn y dyfodol.

Mae galluogi pawb i feithrin y sgiliau a chael yr addysg angenrheidiol i allu sicrhau gwaith gwerthfawr a da yn y dyfodol yn bwysig i ymdeimlad person o lesiant, gan ei alluogi i gyfrannu at ei gymuned a darparu ar ei gyfer ei hun a'u hanwyliaid. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi nodi bod darparu'r gwasanaethau cywir ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig gofalywyr ifanc neu'r rhai ag anghenion cymhleth, yn flaenoriaeth i'w waith. Bydd cydweithio yn hwyluso mwy o gyfleoedd cydgysylltiedig i bobl ifanc o bob cefndir.

Bydd angen i fusnesau'r dyfodol fod yn effeithlon, gweithio gyda'r amgylchedd, a darparu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddefnyddir gennym yn ein bywydau beunyddiol. Wrth i anghenion aelwydydd newid, bydd angen atebion newydd ac arloesol sy'n gydnerth, yn addasadwy ac yn fforddiadwy, er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a chael y cymorth y bydd ei angen arnynt ar yr un pryd. Mae hyn wedi cael ei nodi fel mater pwysig yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, ac mae asesiad y DU o risgiau newid hinsawdd yn tynnu sylw at yr angen i adeiladu tai sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd a'r hinsawdd.

